



Ein cyf: MA/KSNWT/2275/25

Llŷr Gruffydd AS Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

11 Tachwedd 2025

Annwyl Llŷr,

Diolch ichi am ystyried Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn ystod trafodion Cyfnod 2 ar 22 Hydref.

Cyn trafodion Cyfnod 3 ar 2 Rhagfyr, er eglurder roeddwn i eisiau crynhoi'r ymrwymadau a roddais yn ystod y cyfarfod ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru mewn perthynas â materion penodol a godwyd yn ystod trafodion Cyfnod 2.

Amcan Ychwanegol – Mynediad at Wasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys Addysg a Gofal Iechyd:

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried amcan ychwanegol i'w gynnwys o dan adran 4 o'r Bil, sy'n ymwneud â gwelliannau 25 a 55 nad ydynt yn welliannau'r Llywodraeth, yn ogystal â rhai materion ehangach a godwyd mewn perthynas â hygyrchedd. Byddai hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried hwyluso mynediad at wasanaethau cyhoeddus allweddol, gan gynnwys addysg a gofal iechyd, wrth gyflawni swyddogaethau o dan y Bil. Rydym yn bwriadu gofyn barn yr Aelodau ar sylwedd yr amcan hwnnw cyn gynted â phosibl fel y gallant lywio'r gwaith o ddatblygu gwelliant drafft.

Cyflawni Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru:

Fel y cytunwyd arno yn ystod trafodion Cyfnod 2, mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn bwriadu ymgysylltu ag Aelodau mewn perthynas â gwelliannau 61 a 63 a dynnwyd yn ôl a oedd yn ceisio ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod asesiad ariannol gerbron y Senedd yn ymwneud â chyflawni Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru. Rydym yn bwriadu gofyn am eglurhad gan yr Aelodau perthnasol ynghylch eu bwriad mewn perthynas â'r gwelliannau hyn er mwyn ystyried a yw gwelliant yn briodol neu'n angenrheidiol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Noder, byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid cyn bo hir i amlinellu'r diweddariadau a wnaed i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dilyn eu hargymhellion.

Ymgynghori â'r awdurdodau lleol:

Yn olaf, o ran y gwelliannau arfaethedig sy'n ymwneud â Siarter/Fforwm Teithwyr, er ein bod o'r farn nad oes angen gwneud darpariaeth statudol mewn perthynas â siarter, rydym yn cydnabod bod y bwriad y tu ôl i'r ddau welliant hyn yn gyfle i ystyried gwelliant amgen ynghylch hygyrchedd a chynhwysiant trwy ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu rhannu drafft gyda'r Aelodau perthnasol cyn ei gyflwyno.

Rwyf am ddiolch i'r Pwyllgor unwaith eto am eu hamser; bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru yn ymgysylltu â'r Aelodau perthnasol ar y materion yr wyf wedi'u hamlinellu uchod.

Yn gywir,



Julie James AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery